**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Benaethiaid Cymru

Medi 2018

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, rydym am sicrhau nad yw plant sydd wedi'u mabwysiadu yn cael eu hanghofio.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu ynghylch y ffaith bod plant sy'n derbyn gofal ac wedyn yn cael eu mabwysiadu yn gallu profi anawsterau wrth ddysgu yn sgil trawma cynnar. Nid yw'r heriau hyn yn diflannu pan gaiff Gorchymyn Mabwysiadu ei roi, ac mae'r math o gymorth y mae ysgolion yn ei roi i blant sy'n derbyn gofal yn gallu bod yn aruthrol o fuddiol i'r plant hynny sydd wedi'u mabwysiadu hefyd. Nod Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yw cefnogi pob plentyn sydd wedi profi gofal, p'un a ydynt yn aros mewn gofal neu'n gadael.

Rwy'n gwbl ymroddedig i sicrhau tegwch o fewn ein system addysg. Gwn y byddwch chithau'n rhannu'r ymrwymiad hwn ac am sicrhau bod plant sydd wedi'u mabwysiadu yn eich ysgolion yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion. Y cam cyntaf yw nodi pwy yw'r disgyblion sydd wedi'u mabwysiadu.

Rwy'n sylweddoli y bydd hwn yn fater sensitif i rai rhieni, ac mae ganddynt hawl i beidio â rhannu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, dylai'r dysgwyr hyn yn eich ysgolion gael y gefnogaeth briodol i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae eich cymorth chi yn hyn o beth yn hollbwysig.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.